

# **Adroddiad ar ystyriaeth o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n deillio o'r Bil Seilwaith Telathrebu (Rhyddhad rhag Ardrethi Annomestig), ('y Bil').**

## **Safbwynt y Pwyllgor**

Mae'r Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau yn fodlon gyda'r Memorandwm. Rhoddir rhagor o wybodaeth gefndir am y Bil a'r darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer isod.

### **1.0 Y Bil**

1.1 Cyflwynwyd y Bil Seilwaith Telathrebu (Rhyddhad Rhag Ardrethi Annomestig) (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 4 Gorffennaf 2017.

1.2 Amcan polisi datganedig Llywodraeth y DU yw cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith band eang ffeibr newydd a chyfathrebu 5G yn y dyfodol drwy gynnig rhyddhad ardrethi annomestig newydd o 100 y cant ar gyfer seilwaith ffeibr llawn newydd. Caiff y rhyddhad hwn ei ddarparu am gyfnod o bum mlynedd o 1 Ebrill 2017 ymlaen. Mae modd ôl-ddyddio'r rhyddhad i 1 Ebrill 2017 ar gyfer seilwaith cymwys.

1.3 Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol sy'n gyfrifol am y Bil.

1.4 Mae darpariaethau allweddol y Bil yn darparu'r fframwaith ar gyfer cyflwyno a gweithredu rhyddhad rhag ardrethi annomestig ar gyfer hereditamentau a ddefnyddir at ddibenion telathrebu.

### **2.0 Darpariaethau y gofynnir am gydsyniad ar eu cyfer:**

2.1 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai angen caniatâd y Cynulliad i gymalau 1 i 3 o'r Bil newid Rhan 3 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") (ardrethu annomestig) i gyflwyno rhyddhad newydd ar gyfer hereditamentau a ddefnyddir at ddibenion telathrebu sy'n ymddangos ar restrau ardrethi annomestig.

2.1.1 Mae cymal 1 a chymal 2 hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru bennu lefel y rhyddhad drwy ragnodi swm y rhyddhad mewn rheoliadau. Caiff rheoliadau hefyd osod dyletswyddau neu roi pwerau i swyddogion prisio, ac mae'r rhain yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

- 2.1.2 Mae cymal 3 yn darparu ar gyfer yr un darpariaethau o ran y rhestr ardrethu canolog, fel bod hereditamentau telathrebu ar y rhestr ardrethu canolog hefyd yn gymwys ar gyfer y rhyddhad hwn.
- 2.1.3 Mae cymal 4 yn cyflwyno'r Atodlen i'r Ddeddf sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 1988 a Deddf Atodiadau Ardrethi Busnes 2009. Mae rheoliadau o dan yr adran hon, sy'n diwygio neu'n diddymu unrhyw ddarpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae unrhyw reoliadau eraill yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.
- 2.1.4 Fel y nodir ym mharagraffau 7 ac 8, mae'r darpariaethau yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth sy'n pennu'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i'r rhyddhad fod yn gymwys, faint o ryddhad sy'n gymwys, a swyddogaethau'r swyddog prasio mewn perthynas â chanfod gwerthoedd ardrethol hereditamentau cymwys.
- 2.1.5 Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn gan eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau eu bod yn ymwneud â "chyllid llywodraeth leol" ym mharagraff 12 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2006.

### **3.0 Goblygiadau ariannol**

- 3.1 Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi i newidiadau gael eu gwneud i'r symiau a delir ar hereditamentau a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion hwyluso trawsyriant cyfathrebu drwy unrhyw fodd sy'n ymwneud â defnyddio ynni trydanol neu ynni electromagnetig. Bydd hyn yn lleihau'r ardrethi annomestig a gesglir ar gyfer hereditamentau sy'n gymwys ar gyfer y rhyddhad hwn.
- 3.2 Cafodd y polisi hwn ei gyhoeddi yn Natganiad y Canghellor yn Hydref 2016 ac mae cyllid wedi ei ddarparu i Gymru o ganlyniad, y gellir ei ddefnyddio i gymryd lle unrhyw refeniw o ardrethi annomestig a gollwyd.

### **4.0 Casgliad**

- 4.2 Ar sail y cyngor cyfreithiol a gafwyd, roedd y Pwyllgor yn teimlo bod cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ofynnol mewn perthynas â darpariaethau amrywiol y Bil.
- 4.1 Ystyriodd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn gyffredinol, yn ogystal â'r gofyniad am gynnig cydsyniad deddfwriaethol sy'n ymwneud â darpariaethau'r Bil

yn y meysydd perthnasol, yn eu cyfarfod ar 11 Hydref 2017. Mae'n fodlon ar y Memorandwm.